# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn 2008 i benderfynu ar ystod a lefelau'r taliadau sy'n daladwy gan brif gynghorau, cynghorau Tref a Chymuned ac Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (yr Awdurdodau) i'w cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio. Mae ganddo bwerau i wneud argymhellion ar amrywiadau arfaethedig i daliadau prif weithredwyr prif gynghorau Cymru. Mae'r panel yn annibynnol ar y Llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.

Mae'r Panel yn casglu tystiolaeth a safbwyntiau gan randdeiliaid.

Bydd unrhyw dystiolaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i benderfynu ar lefel y taliadau i aelodau’r Awdurdodau. Cynhyrchir y taliadau hyn mewn adroddiad blynyddol yr ymgynghorir arno ac a gyhoeddir bob mis Chwefror gan y panel.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ysgrifenyddol i'r Panel.

Y cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau i'r Panel yw:
Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Cyfeiriad E-bost: IRPMailbox@llyw.cymru
Rhif ffôn: 0300 025 3038.

# PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL - HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Mae aelodau unigol o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ('y Panel') yn mynd ati i gasglu tystiolaeth i bennu ystod a lefelau'r taliadau y mae prif gynghorau, cynghorau Tref a Chymuned, ac Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (yr Awdurdodau) yn eu talu i'w haelodau ac aelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio. Wrth wneud hynny byddant yn casglu data personol o bynciau data (Cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig). Mae'r hysbysiad hwn yn nodi sut y caiff y data hwnnw ei brosesu.

Y Panel fydd rheolydd y data ar gyfer y data personol a gesglir a byddwn yn ei brosesu yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a ymddiriedir ynom i ymgymryd â rôl a swyddogaethau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Caiff yr wybodaeth ei defnyddio i wneud penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch lefel y taliadau i Gynghorwyr.

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir gan aelodau'r Panel yn cael ei hanfon at ei Hysgrifenyddiaeth yn Llywodraeth Cymru drwy drosglwyddiad diogel a'i storio ar weinydd diogel Llywodraeth Cymru. Dim ond staff Llywodraeth Cymru sy'n gwasanaethu fel rhan o'r Ysgrifenyddiaeth fydd yn cael gweld y dogfennau sydd wedi'u storio. Ar gais aelod o'r Panel, bydd dogfennau'n cael eu hanfon atynt drwy drosglwyddiad diogel.

Bydd yr holl ddata a gesglir drwy ymchwil yn cael ei adrodd mewn fformat dienw. Ni fydd yn cynnwys unrhyw fanylion cyswllt a chaiff unrhyw wybodaeth adnabyddadwy mewn atebion penagored ei dileu. Bydd y Panel a'r Ysgrifenyddiaeth yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir mewn adroddiadau i'w defnyddio'n allanol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Ni fydd adroddiadau yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol.

Bydd unrhyw ddata personol yn cael ei gadw yn unol â pholisi cadw Llywodraeth Cymru am hyd at ddwy flynedd.

O dan GDPR, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol; mae gennych yr hawl:

- I weld y data personol yr ydym yn ei gadw amdanoch.

- I ofyn i’r Panel gywiro unrhyw beth sy'n anghywir yn y data hwnnw.
- dan rai amgylchiadau, i wrthwynebu bod y data'n cael ei brosesu.
- Yr hawl (o dan rai amgylchiadau) i ofyn bod eich data yn cael ei ddileu.
- I gofrestru cwyn yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

Y manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

**Gwybodaeth Bellach**
Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach ynghylch sut mae'r data a darparwch yn rhan o unrhyw ymchwil y mae'r panel yn ei wneud neu'n dymuno arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data, cysylltwch â:

Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Cyfeiriad E-bost: IRPMailbox@gov.wales
Rhif ffôn: 03000 253038

Gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru yn:

Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays Park,
Caerdydd,
CF10 3NQ,
Ebost: DataProtectionOfficer@lyw.cymru.